Ysgol Gyfun Garth Olwg

Prifathro / Headteacher
Mr. Trystan Edwards BSc., C.P.C.P

Campws Cymuned Garth Olwg, Y Brif Ffordd / Main Road,
Pentre'r Eglwys, Pontypridd, CF38 1DX

☎ 01443 219580 🖷 01443 219596
gweinyddol@gartholwg.cymru
www.gartholwg.cymru

Datganiad i'r wasg
Dydd Iau, 24ain Awst 2017

Disgyblion yn cael eu canmol ar berfformiad TGAU

Mae disgyblion Ysgol Gyfun Garth Olwg unwaith eto wedi cyflawni canlyniadau TGAU sy'n eu gosod ar lwybr o lwyddiant gydol oes. Mae'r ysgol Gymraeg ym Mhentre'r Eglwys, Pontypridd yn falch o gyhoeddi bod disgyblion Garth Olwg wedi perfformio'n dda yn y set gyntaf o arholiadau TGAU newydd. Mae'r disgyblion wedi cyrraedd eu potensial ac mae'r canlyniadau'n galonogol iawn.

Mae'r cyrhaeddiad uchel ymhlith carfan sylweddol o'n disgyblion yn adlewyrchu gwaith caled ac ymroddiad y disgyblion, staff, rhieni a gwarchodwyr.
Ymhlith ein myfyrwyr sydd wedi gwneud yn rhagorol eleni mae:

Aled Williams – 10A*, 3A
Bethan Horscroft-Preest – 9A*, 4A
Jake Spencer – 7A*, 4A, 2B
Ieuan Davies – 6A*, 8A, 2B

Morgan Evans – 3A*, 10A
Seren Lloyd Ellis – 3A*, 7A, 3B
Lauren Goddard – 2A*, 9A, 2B
Leah Wakefield-Coates - 2A*, 9A, 2B
Aneurin James – 1A*, 11A, 1B
Anya Hayes – 1A*, 8A, 3B

Mae'r ysgol yn ymfalchïo bod llawer o'r disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r disgyblion hynny wnaeth sefyll yr arholiadau o dan amodau anodd, hefyd wedi sicrhau canlyniadau clodwiw.

Dywedodd **Trystan Edwards**, Prifathro Ysgol Gyfun Garth Olwg:

"Llongyfarchiadau mawr i'n disgyblion Blwyddyn 11 ar eu canlyniadau. Mae hyn yn dyst i'r holl waith caled gan y disgyblion a'r staff, ac hefyd cefnogaeth gadarn ein rhieni a'n gwarcheidwaid. Rydym wedi llwyddo i feithrin y sgiliau dwyieithog sydd eu hangen arnynt ar gyfer y dyfodol a

hynny mewn cyfnod lle bu cymaint o newid yng ngofynion Cyfnod Allweddol 4 yng Nghymru. Yr wyf yn edrych ymlaen at groesawu nifer ohonynt yn ôl i'r chweched dosbarth, ac rwy'n falch iawn ein bod ni'n gallu cynnig ystod eang o gyrsiau a chymwysterau amrywiol."

Dywedodd **Sara Thomas**, Cadeirydd y Corff Llywodraethu:

"Hoffwn gymeradwyo'r disgyblion, staff a rhieni ar y canlyniadau TGAU eleni – rydym yn falch bod y mwyafrif llethol wedi gwneud cynnydd rhagorol. Mi fydd eu canlyniadau yn sicrhau eu bod wedi eu harfogi ar gyfer y cam nesa, ac rydym yn dymuno pob llwyddiant iddynt, beth bynnag y maent yn dewis ei wneud. Rydym yn edrych ymlaen at gynnig addysg cyfrwng Cymraeg i nifer ohonynt yn y chweched dosbarth, gan eu paratoi at symud ymlaen yn hyderus tuag at Goleg, Prifysgol, Hyfforddiant, Prentisiaeth – ac at ddilyn gyrfaoedd llwyddiannus."

Ysgol Gyfun Garth Olwg

Prifathro / Headteacher
Mr. Trystan Edwards BSc., C.P.C.P

Campws Cymuned Garth Olwg, Y Brif Ffordd / Main Road,
Pentre'r Eglwys, Pontypridd, CF38 1DX

☎ 01443 219580 🖷 01443 219596
gweinyddol@gartholwg.cymru
www.gartholwg.cymru

Press Release
Thursday, August 24th, 2017

Pupils Praised for GCSE Performance

Pupils at Ysgol Gyfun Garth Olwg have once again achieved GCSE results which will set them on the path for a lifetime of success. The Welsh Language School at Church Village, Pontypridd is pleased to announce that the pupils have performed well in the new GCSE examinations. The pupils have achieved their potential and these are a very promising set of results.

The high attainment among a significant number of pupils in the cohort reflects the hard work and dedication of the pupils, staff, parents and guardians.
Some of our high achievers include:

Aled Williams – 10A*, 3A
Bethan Horscroft-Preest – 9A*, 4A
Jake Spencer – 7A*, 4A, 2B
Ieuan Davies – 6A*, 8A, 2B

Morgan Evans – 3A*, 10A
Seren Lloyd Ellis – 3A*, 7A, 3B
Lauren Goddard – 2A*, 9A, 2B
Leah Wakefield-Coates - 2A*, 9A, 2B
Aneurin James – 1A*, 11A, 1B
Anya Hayes – 1A*, 8A, 3B

The school is very pleased that many of its pupils with Additional Learning Needs as well as those pupils who sat these examinations under very challenging circumstances, also achieved good results.

Trystan Edwards, Headteacher of Ysgol Gyfun Garth Olwg said:

"I send my warmest congratulations to our Year 11 pupils on their results. They have worked very hard, and their success is testament to the hard work of the Staff at Garth Olwg, and the continuous support from our parents and guardians. We have succeeded in providing our pupils

with the bilingual skills they need for the future during a very challenging period in which there has been so many changes to the KS4 programme of study in Wales. I look forward to welcoming many of them back into the Sixth Form and I am delighted that we're able to offer them such a rich and varied curriculum for the next step in their learning pathway."

Sara Thomas, Chair of the Governing Body said:

"Well done to our pupils, staff and parents on this year's GCSE results – we are very proud that the vast majority of our pupils have made excellent progress. Their results will ensure that they are equipped for the next stage, and we wish them every success in whatever they choose next. In the 6th form, we look forward to offering many of them the education, through the medium of Welsh, that will allow them to progress confidently to College, University, Training, Apprenticeships and to lead successful careers.